

DELIO AG ACHOSION O AMDDIFFYN PLANT TRAWSFFINIOL: CANLLAWIAU “CAMAU ALLWEDDOL” I AWDURDODAU LLEOL, BYRDDAU IECHYD AC YMDDIRIEDOLAETHAU'R GIG YNG NGHYMRU

Y CYNGOR HWN

Rhoddir y cyngor hwn gan Lywodraeth Cymru. Nid yw'n statudol a'i brif ddiben yw helpu Awdurdodau Lleol i ddelio ag achosion o amddiffyn plant trawsffiniol o dan Gonfensiwn yr Hag 1996.¹ Bwriedir i'r cyngor hwn hefyd helpu Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG y gall fod hefyd angen iddynt roi gwybodaeth mewn perthynas â'r achosion hyn. Rhoddwyd cyngor tebyg gan yr Adran Addysg yn Lloegr.

Mae'n bwysig nodi bod trefniadau cydweithredu tebyg eisoes yn bodoli rhwng Aelod-wladwriaethau'r UE² drwy rinwedd Rheoliad y Cyngor (CE) 2201/2003 (sef Ila Brwsel)

Bydd angen pennu ai Ila Brwsel neu'r Confensiwn sy'n gymwys o'r dechrau.

Yr Uned Herwgydio Plant a Chyswllt Rhyngwladol (ICACU) yw'r Awdurdod Canolog ar gyfer Ila Brwsel o ran Cymru a Lloegr.

Gweinidogion Cymru yw'r Awdurdod Canolog ar gyfer darpariaethau cydweithredu'r Confensiwn o ran Cymru.

Gellir ymgynghori ag Awdurdod Canolog Cymru ar y mater hwn. Rhoddir y manylion cyswllt yn Adran 4.

Ila Brwsel, ac nid y Confensiwn, a fydd yn gymwys pan fydd aelod-wladwriaethau'r UE ynghlwm wrth faterion y mae darpariaeth Ila Brwsel yn gymwys iddynt. Bydd y Confensiwn fel arfer yn gymwys wrth ddelio ag aelod-wladwriaethau nad ydynt yn perthyn i'r UE.

Mae'r cyngor hwn yn amlinellu'r camau allweddol y gall Awdurdodau Lleol eu cymryd i ofyn am help neu wybodaeth hanfodol oddi wrth awdurdodau tramor wrth ddelio, er enghraifft, â phlentyn o'r wlad hon sydd angen cymorth neu y mae angen ei amddiffyn. Mae'r cyngor hwn hefyd yn anelu at nodi sut y dylai Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru ymateb i geisiadau tebyg a gânt oddi wrth awdurdodau tramor.

Mae Llywodraeth Cymru yn glir y dylai egwyddorion diogelu plant fod yr un peth ar draws ffiniau rhyngwladol a bod yn rhaid i bob penderfyniad gael ei wneud er budd y plentyn.

Adran 1 - rhydd drosolwg o'r trefniadau cydweithredu rhwng gwladwriaethau contractio.

¹ Confensiwn yr Hag 1996 ar Awdurdodaeth, Cyfraith Gymwys, Cydnabyddiaeth, Gorfodaeth a Chydweithredu mewn perthynas â Chyfrifoldeb Rhieni a mesurau Amddiffyn Plant.

² Ar wahân i Ddenmarc nad yw'n ddarostyngedig i Ila Brwsel

Adran 2 - rhydd gyngor ar ofyn am wybodaeth oddi wrth Wladwriaethau contractio eraill neu ofyn iddynt weithredu a bydd o ddiddordeb i Awdurdodau Lleol yn bennaf.

Adran 3 - rhydd gyngor ar ddelio â cheisiadau oddi wrth Wladwriaethau contractio eraill a bydd yn gymwys i Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru.

PWYNTIAU ALLWEDDOL

Mae'r Confensiwn yn gymwys i sefyllfaoedd lle mae angen i wladwriaethau contractio gydweithredu o ran achosion o amddiffyn plant a lles plant pan fo dimensiwn rhyngwladol. Gall hyn gynnwys achosion gofal, achosion cyswllt a lleoliadau maeth dramor.

Nod y Confensiwn yw sicrhau bod gwledydd yn cydweithredu'n well fel bod y gwaith o ddelio ag achosion ac amddiffyn plant yn fwy effeithlon, yn osgoi unrhyw oedi ac yn arwain at well canlyniadau i'r plant dan sylw.

Mae'r cyngor hwn ar wahân i'r canllawiau sydd eisoes yn bodoli ar y prif fathau eraill o achosion trawsffiniol - gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â mabwysiadu rhwng gwledydd a chan yr Adran Iechyd mewn perthynas â herwgydio plant.

Nid yw darpariaethau'r Confensiwn yn golygu newid mawr i Awdurdodau Lleol - mewn sawl ffordd maent yn adlewyrchu trefniadau sydd eisoes ar waith o ran y cydweithredu rhwng aelod-wladwriaethau'r UE ar y mathau hyn o achosion plant.

Fodd bynnag, mae'r Confensiwn yn ehangu'r trefniadau hyn mewn rhai sefyllfaoedd a bydd yn golygu bod prosesau cydweithredu tebyg bellach hefyd yn gymwys rhwng y DU a gwledydd y tu allan i'r UE sydd wedi rhoi'r Confensiwn ar waith. Mae rhestr o'r gwledydd hynny (sef y 'gwladwriaethau contractio') ar wefan Cynhadledd yr Hag ar gyfer Cyfraith Ryngwladol Breifat.

ADRAN 1: Trosolwg o'r trefniadau cydweithredu

Mathau o drefniadau

- 1.1 O dan y Confensiwn gall gwladwriaethau contractio ofyn i'w gilydd am wybodaeth neu fath arall o help pan fo materion amddiffyn plant a bod lles plentyn mewn perygl. Nodir y gwahanol fathau o geisiadau yn adrannau 2 a 3 o'r canllawiau hyn ond maent yn cynnwys, er enghraifft:

gofyn am help gwladwriaeth arall i ddod o hyd i blentyn
gofyn am adroddiad ar blentyn sydd 'fel arfer yn byw'³ mewn gwladwriaeth
gontractio arall
gofyn i wladwriaeth arall gymryd camau i amddiffyn lles plentyn
gofyn i wladwriaeth arall gytuno i blentyn gael ei leoli yno mewn gofal maeth neu
breswyl
gofyn i 'awdurdodaeth' plentyn gael ei throsglwyddo o'i wladwriaeth gartref, gan
alluogi awdurdod i wneud penderfyniadau am les plentyn os yw o'r farn mai ef
sydd yn y sefyllfa orau i wneud hynny.

- 1.2 Efallai y bydd rhiant hefyd yn gofyn i Awdurdodau Lleol baratoi adroddiad ar ei addasrwydd i fod mewn cysylltiad â phlentyn sy'n byw mewn gwladwriaeth arall.

Sut mae'r trefniadau cydweithredu yn gweithio

Yr Awdurdod Canolog

- 1.3 Mae Confensiwn yr Hag 1996 a deddfwriaeth bresennol yr UE yn ei gwneud yn ofynnol i bob Gwladwriaeth Gontractio sefydlu Awdurdod Canolog er mwyn helpu i sicrhau bod cyfathrebu effeithiol rhwng awdurdodau lles plant mewn gwladwriaethau contractio.
- 1.4 Gweinidogion Cymru fydd Awdurdod Canolog Cymru a byddant yn gyfrifol am gyflawni swyddogaethau o dan y Confensiwn. Bydd Awdurdodau Canolog gwahanol ar gyfer Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i wladwriaethau contractio sydd y tu allan i'r DU gysylltu ag Awdurdod Canolog Lloegr yn gyntaf a fydd, wedyn, yn trosglwyddo'r cais i'r Awdurdod Canolog perthnasol yn y DU fel y bo angen.
- 1.5 Rhaid i rai mathau o geisiadau gael eu gwneud drwy Awdurdodau Canolog, tra mewn rhaiachosion gall Awdurdodau Lleol ddelio'n uniongyrchol â'u cymheiriaid tramor. Rhoddir rhagor o gyngor ar y mater hwn yn adrannau 2 a 3. Fodd bynnag, argymhellir y dylai Awdurdodau Lleol ymgynghori ag Awdurdod Canolog Cymru yn gyntaf am gyngor ar y ffordd fwyaf priodol o wneud eu cais. Nodir sut mae hyn yn gweithio'n ymarferol yn y ddogfen hon.

³ Rhoddir rhagor o wybodaeth am y termau 'awdurdodaeth' ac 'fel arfer yn byw' yn yr adran Holi ac Ateb ar dudalen 25

- 1.6 Mae Awdurdod Canolog Cymru hefyd yn monitro nifer ac effeithiolrwydd yr achosion yr eir i'r afael â hwy o dan y Confensiwn. Os bydd Awdurdodau Lleol yn penderfynu delio'n uniongyrchol â'u cymheiriaid mewn gwladwriaethau contractio eraill, argymhellir y dylent hysbysu'r Awdurdod Canolog fel y gall greu darlun mor gyflawn â phosibl.
- 1.7 Ceir asiantaethau eraill hefyd a all gynnig cyngor a chymorth ymarferol ar ddelio ag achosion trawsffiniol. Mae'r rhain yn cynnwys:

Children and Families Across Borders (CFAB)
Africans Unite Against Child Abuse (AFRUCA)
Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC Cymru)

Gweler tudalen 28 am ragor o wybodaeth am y sefydliadau hyn.

Trefniadau a chyfrifoldebau Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG

- 1.8 Er bod y Rheoliadau sy'n ategu'r Confensiwn yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru i ymateb mewn modd amserol i rai mathau o geisiadau, ni ragnodir y ffordd y dylid ymateb. I'r graddau y bo'n bosibl, dylai asiantaethau ddilyn eu gweithdrefnau lleol presennol ar sail ymateb cymesur i'r risg o niwed i'r plentyn.
- 1.9 Caiff Awdurdodau Lleol eu hannog i gytuno ar bwynt cyswllt cyntaf er mwyn rheoli unrhyw gyfathrebu rhwng yr Awdurdod Canolog a staff rheng flaen perthnasol a rhoi'r manylion cyswllt i'r Awdurdod Canolog. Awgrymir y dylai unrhyw un a enwebir fod mewn rôl ddigon uchel i wneud penderfyniadau ar gamau gweithredu mewn achosion rhyngwladol ac y dylid sicrhau bod rhywun arall wrth gefn i ddelio â cheisiadau brys yn brydlon. Mae Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at Benaethiaid Gwasanaethau Plant pob Awdurdod Lleol yng Nghymru i nodi cyswllt cyntaf. Nodwyd enwau cyswllt hefyd mewn Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG.

Cysylltiadau â Rheoliadau UE a Chonfensiynau Hag eraill

- 1.10 Mae fframwaith tebyg iawn ar gyfer cydweithredu ar achosion o amddiffyn plant rhwng aelod-wladwriaethau'r UE eisoes yn bodoli drwy Reoliad Cyngor yr UE sef 'Ila Brwsel'.⁴ Nid yw Confensiwn yr Hag 1996 yn cyflwyno cysyniadau na threfniadau cwbl newydd i Awdurdodau Lleol - mae'n adeiladu ar bwerau a dyletswyddau presennol, gan ehangu'r rhain i gwmpasu cysylltiadau â'r nifer cynyddol o wledydd y tu hwnt i Ewrop sydd wedi rhoi'r Confensiwn ar waith.
- 1.11 Mae Confensiwn yr Hag 1996 yn wahanol i Gonfensiwn yr Hag 1980 ar yr Agweddau Sifil ar Herwyddio Plant Rhyngwladol a Chonfensiwn yr Hag 1993 ar Amddiffyn Plant a Chydweithredu o ran Mabwysiadu Rhwng Gwledydd 1993.

⁴ *Rheoliad Cyngor (CE) Rhif 2201/2003 dyddiedig 27 Tachwedd 2003 ynghylch awdurdodaeth a chydabod a gorfodi dyfarniadau mewn materion priodasol a materion cyfrifoldeb rhieni.*

ADRAN 2: Gofyn i wladwriaethau contractio eraill am wybodaeth neu ofyn iddynt weithredu.

- 2.1 Mae'r Adran hon yn egluro, fesul cam, sut y gall Awdurdodau Lleol ofyn am help a chydweithrediad oddi wrth wladwriaethau contractio eraill.
- 2.2 Mae'r Confensiwn yn galluogi Awdurdod Lleol i wneud y canlynol:
- i) gofyn i wladwriaeth arall roi adroddiad/gwybodaeth er mwyn llywio penderfyniadau ar ba fesurau amddiffyn plant y dylid eu cymryd⁵
 - ii) cymryd camau i amddiffyn plentyn sy'n wynebu risg uniongyrchol o niwed, hyd yn oed os yw'r plentyn fel arfer yn byw mewn gwladwriaeth gontractio arall⁶
 - iii) gofyn i wladwriaeth gontractio arall drosglwyddo awdurdodaeth plentyn os bydd Awdurdod Lleol o'r farn ei fod mewn sefyllfa well i wneud penderfyniadau am ei les⁷
 - iv) ymgynghori â'r awdurdod perthnasol mewn gwladwriaeth arall ynghylch lleoli plentyn mewn gofal maeth neu breswyl yn y wladwriaeth honno⁸
 - v) gofyn am help i ddod o hyd i blentyn mewn gwladwriaeth gontractio os bydd Awdurdod Lleol yn poeni am ei les⁹
 - vi) gofyn i wladwriaeth arall ystyried cymryd camau i amddiffyn plentyn sy'n byw yn y wladwriaeth honno¹⁰
 - vii) cyflwyno adroddiad i ategu achos rhiant dros gael cyswllt â phlentyn sy'n byw mewn gwladwriaeth gontractio arall¹¹.

Gofyn am adroddiad/gwybodaeth oddi wrth wladwriaeth arall i ategu penderfyniadau ar yr angen am fesurau amddiffyn plant

- 2.3 Os bydd Awdurdod Lleol yn ystyried cymryd camau i amddiffyn neu ddiogelu plentyn gall ofyn i Awdurdod Cymwys (unrhyw unigolyn neu sefydliad sydd â'r awdurdod, capasiti neu bŵer dirprwyedig neu wedi'i fuddsoddi cyfreithiol i gyflawni swyddogaeth ddynodedig) mewn gwladwriaeth gontractio arall roi gwybodaeth sydd ganddo sy'n berthnasol i'r achos, waeth ble mae'r plentyn fel arfer yn byw.¹² Fodd bynnag, argymhellir y dylai Awdurdodau Lleol ymgynghori ag Awdurdod Canolog Cymru yn gyntaf i gael cyngor ar y ffordd fwyaf priodol o wneud eu cais.

⁵ Erthygl 34

⁶ Erthygl 11

⁷ Erthygl 8

⁸ Erthygl 23

⁹ Erthygl 31(c)


¹⁰ Erthygl 32(b)

¹¹ Erthygl 35(2)

¹² Erthygl 34

- 2.4 Os bydd Awdurdod Lleol yn pryderu am les plentyn sy'n byw yn ei ardal neu'n ymweld â'i ardal dros dro, gall ofyn i'r wlad lle mae'r plentyn yn byw fel arfer am adroddiad ar ei sefyllfa - gweler siart 1 am y broses a argymhellir ar gyfer hyn.
- 2.5 O dan y Confensiwn, ni ddylai'r awdurdod yn y wladwriaeth gontractio roi'r fath adroddiad os bydd yn credu y byddai gwneud hynny yn rhoi'r plentyn neu ei eiddo mewn perygl, neu'n bygwth bywyd neu ryddid aelod o deulu'r plentyn. Os bydd Awdurdod Lleol yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar y wybodaeth sydd ei hangen arno, efallai y gall yr Awdurdod Canolog helpu drwy gydweithio ag Awdurdod Canolog y wladwriaeth arall.
- 2.6 Gall gwladwriaeth gontractio nodi bod yn rhaid i'r ceisiadau hyn am wybodaeth (a wneir o dan Erthygl 34 o'r Confensiwn) fynd drwy ei Hawdurdod Canolog. Gallwch weld a yw'r wlad y mae angen i chi gysylltu â hi wedi nodi hyn drwy edrych ar y golofn 'Cymalau Cadw/Datganiadau' ar gyfer y wlad honno yn Nhabl Statws Confensiwn yr Hag, sydd ar gael ar wefan Cynhadledd yr Hag..

Siart 1 - gofyn am adroddiad i ategu penderfyniadau ar yr angen am fesurau amddiffyn plant



Gweithredu yn achos plentyn sydd mewn perygl uniongyrchol o niwed pan fydd fel arfer yn byw mewn gwladwriaeth gontractio arall

- 2.7 Os bydd Awdurdod Lleol yn nodi bod angen amddiffyn plentyn ar unwaith rhaid iddo gyflawni ei ddyletswyddau i ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn hwnnw o dan Ddeddf Plant 1989. Mewn achosion brys, mae'r Confensiwn yn rhoi'r awdurdodaeth i'r Awdurdod Lleol gymryd unrhyw gamau sydd eu hangen i amddiffyn y plentyn hyd nes bod yr awdurdodau yn y wladwriaeth lle mae'r plentyn fel arfer yn byw wedi cymryd unrhyw gamau angenrheidiol¹³. Ni ddylai'r ffaith bod elfen ryngwladol i'r achos beri oedi o ran y camau amddiffyn y mae angen eu cymryd.
- 2.8 Os mai dim ond dros dro y mae'r plentyn yn y DU, gwlad gartref y plentyn fydd ag awdurdodaeth¹⁴ a'r awdurdod priodol yno sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch lles y plentyn a sut y dylid ei amddiffyn y tu hwnt i'r mesurau uniongyrchol a gymerir oni chaiff awdurdodaeth ei throsglwyddo (o dan Erthyglau 8 a 9) neu fod y plentyn yn ffoadur neu wedi'i ddadleoli oherwydd aflonyddwch yn ei wlad, sy'n cynnwys plant sydd wedi gwneud cais am loches. Yn achos plant sy'n ffoaduriaid a phlant sydd wedi'u dadleoli oherwydd aflonyddwch yn eu gwlad, yr awdurdodau yn y wlad y mae'r plentyn yn gorfforol bresennol ynddi sydd ag awdurdodaeth.
- 2.9 Pan fo risg uniongyrchol o niwed (oni bai fod y plentyn yn ceisio lloches, wedi'i ddadleoli neu'n ffoadur), unwaith y caiff camau eu cymryd i amddiffyn y plentyn dylai'r Awdurdod Lleol gysylltu â'r awdurdod perthnasol yng ngwlad gartref y plentyn i'w hysbysu o'r camau a gymerwyd, gofyn am wybodaeth am amgylchiadau'r plentyn a chytuno ar ba gamau pellach y mae angen eu cymryd. Mae Siart 2 yn nodi'r broses a argymhellir ar gyfer achosion o'r fath. Argymhellir y dylid cysylltu ag Awdurdod Canolog Cymru i ddechrau er, yn yr achosion hyn, gellir gwneud cyswllt drwy'r Awdurdod Canolog, neu gysylltu'n uniongyrchol â'r hyn sy'n cyfateb i Awdurdod Lleol yn y wladwriaeth arall. Dylai Awdurdod Canolog y wladwriaeth arall fod yn gallu rhoi gwybodaeth am y gweithdrefnau amddiffyn plant yn y wladwriaeth honno ac efallai y gall roi'r manylion cyswllt ar gyfer yr awdurdod cyfatebol priodol,
- 2.10 Os bydd angen i'r plentyn barhau i gael ei amddiffyn tra bod yr Awdurdod Lleol mewn cysylltiad â'r awdurdod yn y wladwriaeth arall, mae Rheoliadau Cyfrifoldeb Rhieni a Mesurau Amddiffyn Plant (Rhwymedigaethau Rhyngwladol)(Cymru a Lloegr) 2010¹⁵ yn caniatáu ar gyfer gwneud cais am orchymyn gofal neu oruchwylio interim, er y disgwylir i wladwriaeth arall ddod yn gyfrifol am awdurdodaeth cyn bod angen gorchymyn terfynol.¹⁶

¹³ *Erthygl 11*

¹⁴ *Erthygl 12*

¹⁵ *OS 2010 Rhif 1898*

¹⁶ *Rheoliad 5*

Trosglwyddo awdurdodaeth


- 2.11 Gall Awdurdod Lleol yng Nghymru geisio trosglwyddo awdurdodaeth plentyn sydd fel arfer yn byw mewn gwladwriaeth arall os yw o'r farn ei fod mewn sefyllfa well i wneud penderfyniadau am les y plentyn hwnnw.¹⁷ Gwneir hyn ar ffurf cais i'r Uchel Lys, a fydd wedyn yn cyflwyno'r cais i wlad gartref y plentyn os yw'n briodol.¹⁸
- 2.12 Gall yr awdurdod yng ngwlad gartref y plentyn ofyn ei hun am i awdurdodaeth gael ei throsglwyddo i'r Awdurdod Lleol yng Nghymru¹⁹ - gweler tudalen 20. Mae Awdurdod Canolog Cymru yn anelu at gadw cofnod o bob achos o drosglwyddo awdurdodaeth ac, felly, gofynnir i Awdurdodau Lleol hysbysu'r Awdurdod Canolog pan gaiff y fath drefniadau eu gwneud,

¹⁷ Erthygl 9

¹⁸ Rheoliad 4

¹⁹ Erthygl 8

Siart 2 - Gweithredu yn achos plentyn sydd mewn perygl uniongyrchol



Lleoli plentyn sy'n byw yng Nghymru mewn gofal maeth neu breswyl mewn gwladwriaeth gontractio arall.

2.12 Ymhlith y mathau o sefyllfaoedd y mae'r rhan hon o'r Confensiwn yn gymwys iddynt mae'r canlynol:

mae Awdurdod Lleol o'r farn mai gyda theulu neu unigolion cysylltiedig eraill mewn gwladwriaeth arall y mae fwyaf priodol i leoli'r plentyn efallai y bydd gofalwr maeth plentyn am symud dramor ac mae'r Awdurdod Lleol o'r farn mai aros gyda'r gofalwr hwnnw sydd orau i'r plentyn efallai y bydd angen i blentyn gael ei leoli mewn uned breswyl arbenigol mewn gwlad arall.

- 2.13 Os bydd Awdurdod Lleol am wneud trefniadau i blentyn yn ei ofal (h.y. un sy'n destun gorchymyn gofal neu orchymyn gofal interim) fyw y tu allan i Gymru a Lloegr, rhaid iddo wneud cais i'r llys am ganiatâd i leoli'r plentyn y tu allan i'w awdurdodaeth yn unol â Deddf Plant 1989 Atodlen 2 paragraff 19. Os yw'r plentyn yn destun a20 ni fydd angen cael caniatâd y Llys, ond rhaid i'r awdurdod gael caniatâd pob unigolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn cyn ei leoli dramor.²⁰
- 2.14 O dan y Confensiwn, rhaid i Awdurdod Lleol sy'n ystyried y math hwn o leoliad ymgynghori â'r Awdurdod Canolog neu awdurdod cymwys arall yn y wladwriaeth y mae'r cais yn berthnasol iddi. Rhaid i'r Awdurdod Lleol roi adroddiad ar y plentyn a nodi'r rhesymau dros y cynnig. Dim ond os yw'r Awdurdod Canolog neu awdurdod cymwys arall yn y wladwriaeth y mae'r cais yn berthnasol iddi wedi caniatáu'r lleoliad neu'r ddarpariaeth gofal, gan ystyried buddiannau'r plentyn, y gellir gwneud penderfyniad am leoliad.²¹
- 2.15 Nid oes fformat rhagnodedig ar gyfer gwneud y ceisiadau hyn. Efallai y bydd llythyr yn ddigon neu, os oes angen adroddiad manylach, byddai fformat sy'n debyg i'r hyn a ddefnyddir i ymateb i geisiadau Llys am adroddiadau o dan a7 (adroddiad lles) neu a37 (cyfarwyddyd lles i ymchwilio i amgylchiadau plentyn ac ystyried a ddylid gwneud cais am orchymyn gofal neu oruchwylio) o Ddeddf Plant 1989 yn briodol. Bydd gan Awdurdodau Lleol fformatau ar gyfer yr adroddiadau hyn ar eu systemau cofnodi electronig eisoes.
- 2.16 Awgrymir y byddai Adroddiad Trefniadau Parhaol Plentyn, adroddiad asesu Gofalwr Maeth neu unrhyw adroddiad cyfatebol yn cynnwys digon o wybodaeth at y diben hwn felly nid oes angen creu ffurflen adrodd newydd. Gellir cysylltu ag Awdurdod Canolog y wladwriaeth y cynigir lleoli plentyn ynddi neu awdurdod cymwys. Argymhellir y dylai Awdurdodau Lleol ymgynghori ag Awdurdod Canolog Cymru yn gyntaf am gyngor ar y ffordd fwyaf priodol o weithredu. Mae Siart 3 yn nodi'r broses a argymhellir ar gyfer gwneud y math hwn o gais.
- 2.17 Rhaid i'r Awdurdod Lleol hefyd gyflawni'r dyletswyddau a nodir yn Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Cymru) 2007, Rheoliadau Lleoli Plant (Cymru) 2007 a Rhan 3 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 wrth leoli plentyn mewn gofal y tu allan i Gymru a Lloegr, gan sicrhau bod trefniadau digonol ar waith i oruchwylio ac adolygu'r lleoliad.

²⁰ Deddf Plant 1989 Atodlen 2 paragraff 19

²¹ Erthygl 33


2.18 Nid yw'r rhan hon o'r Confensiwn yn gymwys i'r canlynol:

Ileoliadau mabwysiadu (rheolir y rhain gan Gonfensiwn yr Hag 1993 ar Fabwysiadu rhwng Gwledydd)
Ileoliadau sy'n drefniadau teuluol preifat
Ileoliadau plant sy'n destun gorchmynion gwarcheidwaeth arbennig - gorchmynion cyfraith preifat yw'r rhain ac nid ydynt yn gyfystyr â lleoliad gan Awdurdod Lleol.

2.19 Fodd bynnag, bydd yn gymwys i leoliadau plentyn mewn gofal at ddibenion asesu mewn lleoliad mabwysiadu posibl (fel yr ystyrir yn *Parthed A (Plentyn)* [2009] EWCA Civ 41 lle, er mwyn osgoi torri'r cyfyngiadau ar leoli plentyn dramor at ddibenion mabwysiadu, rhaid i'r lleoliad gael ei nodi'n glir fel lleoliad maeth). Os caiff lleoliad o'r fath ei ystyried dylai'r Awdurdod Lleol gyfeirio at ganllawiau Llywodraeth Cymru

<http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/cofadecision/?skip=1&lang=cy>

Siart 3 - Lleoli plentyn sy'n byw yng Nghymru ar hyn o bryd mewn gofal maeth neu breswyl mewn gwladwriaeth gontractio arall



Gofyn i wladwriaeth arall ddod o hyd i blentyn

- 2.20 Os bydd Awdurdod Lleol wedi cymryd camau i ddiogelu lles plentyn (neu'n bwriadu gwneud hynny) a'i fod yn credu i'r plentyn gael ei gymryd allan o ardal yr Awdurdod Lleol i wladwriaeth gontractio arall, mae'r Confensiwn yn galluogi'r Awdurdod Lleol i ofyn i wladwriaeth gontractio arall am help i ddod o hyd i'r plentyn, er yr argymhellir y dylai Awdurdod Canolog Cymru hefyd gael gwybod. Mae Siart 4 yn disgrifio'r broses ar gyfer y math hwn o gais.
- 2.21 Dylid cyflwyno'r ceisiadau hyn i Awdurdod Canolog y wladwriaeth y credir y dylid symud y plentyn iddi ²², gan egluro amgylchiadau'r plentyn ac unrhyw wybodaeth a allai helpu'r wladwriaeth arall i ddod o hyd i gyfeiriad y plentyn.
- 2.22 Os yw'r plentyn fel arfer yn byw yng Nghymru neu Loegr a bod achos llys yn dechrau neu'n mynd rhagddo, gall y llys ofyn i'r awdurdodau yn y wladwriaeth arall dybio awdurdodaeth dros y plentyn os ymddengys eu bod mewn sefyllfa well i wneud hynny (gweler paragraff 2.11).
- 2.23 Os oes pryderon difrifol am blentyn yn cael niwed sylweddol a bod y plentyn hwn yn cael ei symud i wladwriaeth arall, rhaid i'r Awdurdod Lleol hysbysu'r awdurdodau perthnasol yn y wladwriaeth arall honno ynghylch y perygl i'r plentyn hwnnw a hefyd pa fesurau bynnag roeddent yn eu cymryd neu'n eu hystyried i ddiogelu'r plentyn.²³

Gofyn i wladwriaeth arall ystyried cymryd camau i amddiffyn plentyn sydd fel arfer yn byw yn y wladwriaeth honno.


- 2.24 Mae'r Confensiwn yn galluogi Awdurdod Lleol i ofyn i wladwriaeth gontractio arall gymryd camau i amddiffyn plentyn sydd fel arfer yn byw yn y wladwriaeth honno rhag niwed²⁴. Dylai Awdurdodau Lleol roi digon o wybodaeth i'r awdurdod yn y wladwriaeth arall wneud penderfyniad. Gall y cais hwn gael ei wneud drwy Awdurdod Canolog Cymru neu'n uniongyrchol i'r Awdurdod Canolog yn y wladwriaeth arall (er yr argymhellir y dylai Awdurdodau Lleol hysbysu Awdurdod Canolog Cymru am unrhyw geisiadau a wneir o leiaf). Gall yr Awdurdod Canolog yn y wladwriaeth honno ofyn i'w awdurdod cymwys ystyried yr angen i gymryd camau amddiffyn, ond nid oes rhaid i'r awdurdod wneud hynny.

²² Erthygl 31(c)

²³ Erthygl 36

²⁴ Erthygl 32

Siart 4 – gofyn i Awdurdod Canolog mewn gwladwriaeth arall ddod o hyd i blentyn



Cyflwyno adroddiad i ategu achos rhiant dros gael cyswllt â phlentyn sy'n byw mewn gwladwriaeth gontractio arall

- 2.25 Os bydd rhiant yng Nghymru yn defnyddio llys neu awdurdod gweinyddol i sefydlu cyswllt neu gynnal cyswllt â phlentyn sy'n byw y tu allan i'r DU mewn gwladwriaeth gontractio arall, gall yr unigolyn hwnnw ofyn i'w Awdurdod Lleol baratoi adroddiad ar ei addasrwydd i gael y fath gyswllt fel y gall ei roi mewn tystiolaeth i'r awdurdodau yn y wladwriaeth arall.²⁵
- 2.26 Nid oes dyletswydd ar Awdurdod Lleol yng Nghymru i gytuno i baratoi adroddiad o'r fath na rhoi unrhyw wybodaeth. Fodd bynnag, rhaid i Awdurdodau Lleol arddel disgresiwn rhesymol ac ni allant wrthod paratoi adroddiadau o'r fath yn gyffredinol.
- 2.27 Os bydd Awdurdod Lleol yn cytuno i'r cais hwn, gall gasglu gwybodaeth am addasrwydd y rhiant i gael cyswllt â'r plentyn ac unrhyw amodau y byddai'n briodol yn ei farn ef i'r llys tramor eu gosod. Rhaid i'r llys neu'r awdurdod sy'n delio â'r cais am gyswllt yng ngwladwriaeth gartref y plentyn ystyried adroddiad yr awdurdod lleol cyn gwneud penderfyniad.
- 2.28 Gall Awdurdod Lleol godi ffi 'resymol' am ddarparu'r gwasanaeth hwn, sef tâl sydd mor agos â phosibl i gostau gwirioneddol darparu'r gwasanaeth hwnnw, gan gynnwys costau anuniongyrchol (er enghraifft cyfran o'r costau). Bydd angen i Awdurdodau Lleol gynnwys eu cynllun codi tâl, os oes un, fel rhan o'u polisi ar ddarparu'r gwasanaeth hwn.
- 2.29 Gall Awdurdod Lleol ddarparu gwasanaeth o dan yr Erthygl hon drwy is-gontractio'r gwaith i asiantaeth arall.

Cyflwyno adroddiad mewn achos cyswllt

Mae M ac F wedi ysgaru ac mae ganddynt blentyn naw oed, sef Georgie. Mae M yn byw gyda'r plentyn yn y Swistir, F yng Nghaerdydd. Mae Georgie yn treulio gwyliau ysgol gydag F yng Nghaerdydd o dan delerau gorchymyn cyswllt Swisaidd.

Mae M yn gwneud cais i newid y gorchymyn cyswllt ar ôl i Georgie ddweud wrthi fod partner newydd F a'i phlant yn byw yn nhŷ F a'u bod yn elyniaethus tuag ati ac yn ei bwllo. Nid yw am ymweld mwyach.

Mae F yn gofyn i'w Awdurdod Lleol roi adroddiad i'r llys yn y Swistir ar ei amgylchiadau gartref a'i allu i ddarparu cyswllt priodol i Georgie.

Erthygl 25(2)

²⁵ Erthygl 35

Adran 3: Cyngor ar ddelio â cheisiadau oddi wrth wladwriaethau contractio eraill y tu allan i'r DU

- 3.1 Fel y gall Awdurdodau Lleol yng Nghymru ofyn am fathau penodol o help neu wybodaeth oddi wrth wladwriaethau contractio eraill, gall gwladwriaethau contractio eraill ofyn am help tebyg oddi wrth Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru. Mae'r adran hon yn rhoi cyngor ar ddelio â cheisiadau o'r fath.

Delio â chais am adroddiad/gwybodaeth am sefyllfa plentyn

Gwybodaeth y mae Awdurdod Lleol yn gwneud cais amdani

Mae Callie yn fenyw ifanc o Wrecsam sydd ag iechyd meddwl gwael ac anabledd dysgu. Roedd ei phlentyn cyntaf, David, yn destun achos gofal fel baban a chafodd ei gymryd oddi wrth Callie a'i roi i'w fabwysiadu. Mae Callie yn darganfod ei bod yn feichiog eto ac mae'r Awdurdod Lleol wedi cynnal cynhadledd amddiffyn plant cyn geni.

Mae Callie a'i phartner yn symud i Sbaen er mwyn atal yr awdurdod lleol rhag dechrau achos gofal a mynd â'r baban newydd ar ôl iddo gael ei eni.

Mae'r awdurdodau yn Sbaen yn poeni am les y baban ac yn cysylltu ag Awdurdod Canolog Cymru am wybodaeth. Mae Awdurdod Canolog Cymru yn gofyn i wasanaethau cymdeithasol Wrecsam gysylltu ag awdurdodau Sbaen gyda manylion am hanes Callie fel rhiant a sut y gwnaeth ei hanawsterau arwain at fynd â David oddi wrthi.

Erthygl 34

- 3.2 Gellir gofyn i Awdurdod Lleol am wybodaeth am blentyn gan awdurdod cymwys mewn gwladwriaeth contractio arall sy'n ystyried cymryd camau i amddiffyn y plentyn hwnnw, waeth ble mae'r plentyn fel arfer yn byw.²⁶ Rhaid i'r mathau hyn o geisiadau fynd drwy Awdurdod Canolog Cymru.
- 3.3 Os yw plentyn fel arfer yn byw yng Nghymru a'i fod yn bresennol yng Nghymru, gall awdurdod gwladwriaeth contractio arall y mae cyswllt sylweddol rhyngddo ef a'r plentyn ofyn i Awdurdod Canolog Cymru baratoi adroddiad ar sefyllfa'r plentyn. Os bydd yr Awdurdod Canolog o'r farn ei bod yn briodol, gall drosglwyddo'r cais i Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd a/neu Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru fel y bo angen.
- 3.4 Rhaid i'r cyrff hyn gyflwyno adroddiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.²⁷

²⁶ *Erthygl 34*

²⁷ *Rheoliad 12(5)*


Mae'r Rheoliadau gweithredu²⁸ ar gyfer y Confensiwn yn caniatáu i'r cyrff hyn roi gwybodaeth berthnasol yn gyfreithlon, ar yr amod na fyddai gwneud hynny yn rhoi'r plentyn na'i eiddo mewn perygl, nac yn bygwth bywyd na rhyddid aelod o deulu'r plentyn.²⁹ Rhoddir rhagor o gyngor ar rannu gwybodaeth yn yr adran Holi ac Ateb ar dudalen 24.

- 3.5 Nid oes fformat rhagnodedig ar gyfer ymateb i'r ceisiadau hyn. Gall llythyr fod yn ddigon, neu os oes angen adroddiad manylach, byddai fformat sy'n debyg i'r hyn a ddefnyddir i ymateb i geisiadau Llys am adroddiadau o dan a7 (adroddiad lles) neu a37 (cyfarwyddyd Lles i ymchwilio i amgylchiadau plentyn ac ystyried a ddylid gwneud cais am orchymyn gofal neu oruchwyllo) o Ddeddf Plant 1989 yn briodol. Bydd gan Awdurdodau Lleol fformatau ar gyfer yr adroddiadau hyn ar eu systemau cofnodi electronig eisoes.
- 3.6 Weithiau, gellir gofyn am y fath wybodaeth drwy CAFCASS Cymru - er enghraifft, mewn sefyllfaoedd lle mae CAFCASS Cymru wedi ymwneud â'r plentyn neu'r teulu mewn achos llys arall.

²⁸ Rheoliadau Cyfrifoldeb Rhieni a mesurau Amddiffyn Plant (Rhwymedigaethau Rhyngwladol) (Cymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon) 2010

²⁹ Erthygl 37

Siart 5 - Delio â chais am adroddiad/gwybodaeth am sefyllfa plentyn



Delio â chais i drosglwyddo awdurdodaeth plentyn i awdurdod mewn gwladwriaeth gontractio arall

- 3.7 Gall awdurdod mewn gwladwriaeth gontractio arall geisio trosglwyddo awdurdodaeth plentyn os yw'n credu ei fod mewn sefyllfa well i asesu buddiannau'r plentyn.³⁰
- 3.8 Bydd angen i'r wladwriaeth gontractio arall wneud cais i'r Uchel Lys i drosglwyddo awdurdodaeth, oni bai fod y plentyn eisoes yn destun achos llys ac, os felly, bydd angen i'r llys sy'n delio â'r mater drosglwyddo'r cais i'r Uchel Lys er mwyn ystyried a ddylid caniatáu trosglwyddo awdurdodaeth.³¹ Fel Awdurdod Canolog, byddai Cymru yn gwneud popeth a oedd yn rhesymol bosibl i helpu yn hyn o beth.

Delio â chais oddi wrth wladwriaeth arall i blentyn gael ei roi mewn gofal maeth neu breswyl yn ardal yr Awdurdod Lleol

- 3.9 Dim ond os yw'r awdurdod cymwys wedi cytuno i'r lleoliad y gall awdurdod mewn gwladwriaeth gontractio arall roi plentyn mewn gofal maeth neu leoliad preswyl yng Nghymru.³²
- 3.10 Mae'r cyfyngiad hwn yn gymwys i leoli plentyn, gan gynnwys lleoliadau o dan kafala, lle mai awdurdod gwladwriaeth arall sy'n gyfrifol. Nid yw'n gymwys i leoliadau mabwysiadu a reolir gan Gonfensiwn yr Hag 1993 ar Fabwysiadu rhwng Gwledydd.
- 3.11 Fodd bynnag, mewn sawl achos, ni fydd y plentyn yn destun unrhyw achos yma. Rhaid i'r awdurdod yn y wladwriaeth gontractio roi adroddiad i'r Awdurdod Lleol yng Nghymru ar y plentyn a'r rhesymau dros ystyried y lleoliad. Rhaid i'r Awdurdod Lleol asesu'r lleoliad a phenderfynu a yw er budd y plentyn. Os bydd yr Awdurdod Lleol yn cytuno i'r lleoliad, dylid pennu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer derbyn y plentyn i'r DU a'i leoli. Dylai'r ddau awdurdod gytuno ar bwy sy'n gyfrifol am fonitro'r lleoliad.
- 3.12 Dylai'r Awdurdod Lleol bennu a yw strwythur cyfreithiol y lleoliad yn rhoi cyfrifoldeb rhiant i'r gofalwr. Os nad yw'n gwneud hynny, waeth unrhyw gytundeb rhwng yr awdurdodau, yr Awdurdod Lleol fydd yn gyfrifol am fonitro'r lleoliad fel trefniant maethu preifat o dan a66 o Ddeddf Plant 1989.
- 3.13 Os bydd y plentyn yn destun unrhyw achos llys yng Nghymru a Lloegr, yr awdurdod cymwys i wneud y penderfyniad yw'r llys, a fydd yn trefnu gwrandawriad cyfarwyddiadau i ystyried y cais.³³

Cais i leoli plentyn y credir ei fod yn ardal yr Awdurdod Lleol.

- 3.14 Os bydd awdurdod mewn gwladwriaeth gontractio o'r farn bod angen i blentyn gael ei amddiffyn a bod y plentyn hwnnw wedi'i gymryd o'i ardal a'i dywys i Gymru, gall ofyn am gymorth³⁴ oddi wrth Awdurdod Canolog Cymru i ddod o hyd i'r plentyn

³⁰ Erthygl 9

³¹ Rheolau Trefniadaeth Teulu 12.66


³² Erthygl 33

³³ Rheolau Trefniadaeth Teulu 12.69

hwnnw. Yna, gall Awdurdod Canolog Cymru drosglwyddo'r cais hwn i Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd a/neu Ymddiriedolaethau'r GIG fel y bo angen. Mae Siart 6 yn nodi'r broses a argymhellir ar gyfer delio â'r ceisiadau hyn.

- 3.15 Mae gan Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG ddyletswydd i helpu gyda'r ceisiadau hyn. Yn achos Awdurdodau Lleol, awgrymir y dylid dechrau drwy ddilyn gweithdrefn arferol Awdurdodau Lleol ar gyfer dod o hyd i blentyn sydd ar goll o ofal neu addysg. Os na lwyddir i ddod o hyd i'r plentyn ar ôl chwilio cronfeydd data perthnasol, gall Awdurdodau Lleol benderfynu pa lefel o wiriadau pellach sy'n gymesur i'r ffactorau risg a ddisgrifiwyd gan yr awdurdod a wnaeth y cais.
- 3.16 Os daw cyfeiriad ar gyfer y plentyn i'r amlwg, dylai'r Awdurdod Lleol ystyried a fydd datgelu'r wybodaeth hon yn peri risg o niwed i'r plentyn neu ei deulu, neu a fyddai'n drosedd neu'n ddirmyg llys. Os felly, gellir gwrthod datgelu gwybodaeth. Mewn achosion dirmyg llys, os bydd yr Awdurdod Lleol o'r farn bod datgelu gwybodaeth er budd y plentyn, rhaid iddo gael caniatâd y llys i wneud hynny.
- 3.17 O ran Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG, awgrymir y gall Gwarcheidwad Caldicott ar gyfer y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth y GIG fod, yn gyntaf, am gadarnhau a yw'r plentyn wedi'i restru ar y System Iechyd Plant Cymunedol leol (CCH200). Os nodir bod y plentyn yn y cyffiniau, dylai'r Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth y GIG gael gafael ar unrhyw wybodaeth bellach am y plentyn hwnnw sy'n briodol i ymateb i'r cais a wneir. Efallai y bydd Gwarcheidwad Caldicott am gysylltu â'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth lleol i gael cyngor ac arweiniad fel rhan o'r broses asesu.
- 3.18 Ym mhob achos, os bydd risg sylweddol o niwed i blentyn a bod rheswm dilys dros gredu bod y plentyn yn y cyffiniau bydd hefyd angen rhannu gwybodaeth â gweithwyr proffesiynol eraill, gan gynnwys asiantaethau cymunedol a gwirfoddol, er mwyn diogelu'r plentyn hwnnw.

Siart 6 - Cais i leoli plentyn y credir ei fod yn ardal yr Awdurdod Lleol



Gofyn i'r Awdurdod Lleol ystyried cymryd camau i amddiffyn plentyn sydd fel arfer yn byw yn ardal yr Awdurdod Lleol.

- 3.19 Os bydd Awdurdod Canolog neu awdurdod arall mewn gwladwriaeth gontractio y tu allan i'r DU yn pryderu am les plentyn sydd fel arfer yn byw yng Nghymru ac yn bresennol yng Nghymru, gall ofyn i'r Awdurdod Lleol perthnasol gymryd camau i amddiffyn y plentyn hwnnw. Dylid gwneud y cais gyda rhesymau ategol i Awdurdod Canolog Cymru, a all drosglwyddo'r cais i'r Awdurdod Lleol³⁵. Nid oes rhaid i'r Awdurdod Lleol gymryd unrhyw gamau penodol, ond rhaid iddo ystyried a oes angen cymryd camau amddiffyn. Os bydd yr Awdurdod Lleol yn penderfynu cymryd camau amddiffyn, bydd yn gwneud hynny o dan ei weithdrefnau amddiffyn plant arferol a gall ofyn am wybodaeth ategol bellach oddi wrth yr awdurdod arall o dan Erthygl 34.

³⁵ *Erthygl 32(b)*

Adran 4: Holi ac Ateb

Sut mae Rheoliad Confensiwn 1996 ac Ila Brwsel yn cydweithio?

Parheir i ddelio ag achosion rhwng y DU ac Aelod-wladwriaethau eraill yr UE o dan Reoliad Cyngor 2201/2003 yn achos materion lle mae'r Rheoliad hwn yn gymwys. Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau gweithredu ar gyfer yr Hag 1996 yn cynnwys darpariaethau i sicrhau bod y gofynion o dan Ila Brwsel yn unol â'r rhai sy'n gymwys o dan y Confensiwn. Diben hyn yw sicrhau bod y cydweithredu rhwng gwladwriaethau'r UE yn gyson â'r hyn sydd ar gael i wledydd yr Hag 1996 y tu allan i'r UE.

Ar gyfer pob cais ac ymholiad o dan Ila Brwsel cyflawnir swyddogaeth yr Awdurdod Canolog gan yr Uned Herwyddio Plant a Chyswllt Rhyngwladol (ICACU) yn Swyddfa'r Cyfreithiwr Swyddogol ac Ymddiriedolwr Cyhoeddus (OSPT). Rhoddir manylion cyswllt ICACU mewn ffynonellau gwybodaeth pellach isod.

Beth yw ystyr 'fel arfer yn byw'?

Mae natur y dyletswyddau a'r trefniadau a ddisgrifir yn y Confensiwn yn dibynnu ar ble mae'r plentyn 'fel arfer yn byw'. Fel rheol, y wladwriaeth y mae'r plentyn yn byw ynddi fel arfer yw'r wladwriaeth sydd ag awdurdodaeth drosto, ynghyd â'r pŵer i gynnal a phenderfynu achosion i ddiogelu lles y plentyn hwnnw. Felly, mae pennu ble mae'r plentyn fel arfer yn byw yn gam pwysig wrth asesu sefyllfa plentyn.

Yn farnwrol, diffiniwyd 'fel arfer yn byw' fel y lle y mae unigolyn wedi sefydlu, yn hirdymor, ei ganolfan fuddiannau barhaol neu arferol, gan ystyried yr holl ffactorau perthnasol at ddiben pennu'r fath breswylfa.³⁶ Synnwyr cyffredin yw hyn fel arfer. O ran plentyn, bydd tystiolaeth o'r man lle mae 'fel arfer yn byw' yn cynnwys ffactorau fel:

ble mae wedi'i gofrestru ar gyfer yr ysgol neu feithrinfa
ble mae wedi'i gofrestru ar gyfer gofal meddygol
ble mae ei brif ofalwr fel arfer yn byw
sut mae trefniadau gwarchodaeth yn dynodi ble y dylai plentyn fod yn byw fel arfer.

Nid yw'r man lle mae plentyn fel arfer yn byw o reidrwydd yn gysylltiedig â'i rieni nac ychwaith genedligrwydd y plentyn.

Os bydd plentyn wedi cael ei symud o un wladwriaeth i'r llall heb ganiatâd y sawl sydd â hawliau gwarchodaeth ni fydd y man lle mae'r plentyn fel arfer yn byw wedi newid. Fodd bynnag, os bydd plentyn wedi byw mewn gwladwriaeth am flwyddyn ac wedi ymgartrefu yno, ystyrir bod y plentyn hwnnw fel arfer yn byw yn y wladwriaeth honno ar yr amod nad oes unrhyw un wedi gwneud cais dilys i'r plentyn gael ei ddychwelyd.³⁷ Fodd bynnag, os bydd plentyn wedi cael ei symud o un wladwriaeth i'r llall heb ganiatâd y sawl sydd â hawliau gwarchodaeth ni fydd y man lle mae'r plentyn fel arfer yn byw wedi newid.

Os nad yw'n glir ble mae plentyn fel arfer yn byw, dylid cael cyngor cyfreithiol. Os na ellir pennu ble mae'r plentyn fel arfer yn byw, y wladwriaeth y mae'r plentyn yn bresennol ynddi

³⁶ *Marinos v Marinos [2007] EWHC 2047 (Fam)*

³⁷ *Erthygl 7*

fydd ag awdurdodaeth drosto.³⁸ Os oes anghydfod, gellir gwneud cais i'r Uchel Lys am ddatganiad ar ble mae'r plentyn fel arfer yn byw.

Cyfrifoldeb rhiant

Yn ôl Erthygl 1 o'r Confensiwn, mae a wnelo cyfrifoldeb rhiant ag awdurdod rhiant neu unrhyw gydberthynas awdurdodol debyg sy'n pennu hawliau, pwerau a chyfrifoldebau rhieni, gwarcheidwaid neu gynrychiolwyr cyfreithiol eraill o ran y plentyn.

Unwaith y caiff cyfrifoldeb rhiant ei bennu mewn un gwlad, bydd y sawl â'r cyfrifoldeb hwnnw yn parhau i feddu arno ar ôl symud i wladwriaeth wahanol, ond dim ond o dan gyfraith y wladwriaeth y mae'r plentyn fel arfer yn byw ynddi ar y pryd y gellir dyrannu cyfrifoldeb rhiant pellach.

Mae Gwarcheidwaeth Arbennig yn fath penodol o gyfrifoldeb rhiant sy'n drech na'r hyn sydd gan rieni neu eraill â chyfrifoldeb rhiant. Nid yw o reidrwydd yn cael ei deall yn hawdd na'i hailadrodd mewn gwladwriaethau eraill felly dylid cymryd gofal i egluro ystyr cyfrifoldeb rhiant gwarcheidwaid arbennig.

A yw rhannu gwybodaeth o dan y Confensiwn yn peri risg o dorri'r Ddeddf Diogelu Data?

Lle mae gan Awdurdod Lleol neu Awdurdod Canolog y ddyletswydd neu'r pŵer i roi gwybodaeth, mae'r Rheoliadau sy'n ategu'r Confensiwn yn sicrhau y bydd yn gwneud hynny'n gyfreithlon ac na fydd felly yn torri'r Ddeddf Diogelu Data.

Wrth ystyried a ddylid gofyn am wybodaeth neu anfon gwybodaeth, rhaid i Awdurdodau Lleol weithredu o dan Erthygl 37 o'r Confensiwn. Mae hyn yn nodi na ddylid gofyn am wybodaeth na'i rhoi os byddai gwneud hynny yn rhoi'r plentyn neu ei eiddo mewn perygl, neu'n bygwth bywyd neu ryddid aelod o deulu'r plentyn.³⁹

Nid oes angen rhoi gwybodaeth os byddai gwneud hynny'n gyfystyr â chyflawni trosedd neu'n ddirmyg llys. Os yw hyn yn peri pryder, dylid cael cyngor cyfreithiol.⁴⁰ Os bydd yr Awdurdod Lleol, mewn achosion dirmyg llys, o'r farn bod datgelu gwybodaeth er budd y plentyn, rhaid iddo gael caniatâd y llys i wneud hynny.

Pa wledydd sydd wedi gweithredu Confensiwn yr Hag 1996

Mae rhestr o wledydd a'u safle presennol o ran y Confensiwn ar gael ar wefan yr Hag [yma](#). Ar y rhestr hon, dim ond y Gwladwriaethau hynny sydd wedi 'Rhoi mewn Grym' sy'n gweithredu'r Confensiwn.

Ym mha iaith y dylai Awdurdodau Lleol gyfathrebu â gwladwriaethau eraill?

Dylai'r cyfathrebu rhwng Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG ac awdurdodau mewn gwladwriaethau contractio eraill ddigwydd yn Saesneg, ynghyd â chyfieithiad o'r ohebiaeth, os yn bosibl, i un o ieithoedd swyddogol y wladwriaeth arall. Gall

³⁸ Erthygl 6

³⁹ Erthygl 37

⁴⁰ Rheoliadau 10(6), 11(5) a 12(6)

Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru ddefnyddio'r Gymraeg ar yr amod eu bod yn cyfathrebu drwy Awdurdod Canolog Cymru.

Os nad oes modd darparu cyfieithiad, gellir cyfathrebu yn Saesneg oni bai fod y wladwriaeth arall wedi cyflwyno cymal cadw rhag defnyddio'r iaith Saesneg. Gellir cadarnhau hyn drwy edrych ar y cymalau cadw a nodir yn y tabl statws ar wefan yr Hag: http://www.hcch.net/index_en.php?act=conventions.authorities&cid=70.

Os yw gwlad wedi cyflwyno cymal cadw rhag defnyddio'r iaith Saesneg, rhaid cyfathrebu yn iaith y wlad honno neu yn Ffrangeg. Pan fydd cadarnhad, bydd y DU yn datgan na ellir defnyddio'r iaith Ffrangeg mewn gohebiaeth oddi wrth awdurdodau Gwladwriaethau Contractio eraill.⁴¹

A oes rhaid i Awdurdod Lleol gydnabod gorchymyn amddiffyn plant a osodwyd mewn gwladwriaeth contractio?

Mae'r Confensiwn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau pob gwladwriaeth contractio wneud y canlynol:

- 1) cydnabod camau a gymerir mewn gwladwriaethau contractio eraill⁴²
- 2) derbyn unrhyw ganfyddiadau ffeithiol a wneir gan awdurdod mewn gwladwriaeth contractio arall⁴³
- 3) cofrestru a gorfodi gorchymyn a wneir mewn gwladwriaeth contractio arall fel petai wedi cael ei wneud yn ei wladwriaeth ei hun.⁴⁴

Yn ôl y Confensiwn, rhaid i bob gwladwriaeth contractio gydnabod unrhyw orchmynion neu fesurau eraill sydd ar waith ym mhob gwladwriaeth contractio arall o ran cyfrifoldeb rhiant ac amddiffyn plant.⁴⁵

Gall unrhyw un sydd â diddordeb yn achos y plentyn wneud cais i'r Uchel Lys i gydnabod neu beidio â chydabod gorchymyn a wnaed mewn gwladwriaeth contractio arall. Caniateir peidio â chydabod gorchymyn mewn rhai achosion, er enghraifft lle cafwyd gorchymyn heb i'r plentyn, neu rywun â chyfrifoldeb rhiant, gael cyfle i wneud sylwadau amdano. Os bydd angen i Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am blentyn wneud cais i gydnabod gorchymyn a roddwyd gan lys yng Nghymru a Lloegr mewn gwladwriaeth arall neu i gydnabod neu beidio â chydabod gorchymyn gwladwriaeth arall yn y llys, dylid cael cyngor cyfreithiol.

Wrth ystyried a ddylid cydnabod gorchymyn, bydd y llys yn rhwym wrth unrhyw ganfyddiadau ffeithiol a wnaed yn y wladwriaeth wreiddiol, felly ni all yr Awdurdod Lleol wneud cais i beidio â chydabod gorchymyn ar sail y ffaith bod ei asesiad o sefyllfa'r plentyn yn mynd yn groes i asesiad gwladwriaeth arall.

⁴¹ Erthygl 54

⁴² Erthygl 23

⁴³ Erthygl 25

⁴⁴ Erthyglau 26 a 28

⁴⁵ Erthygl 23

O dan Erthygl 24 o'r Confensiwn, gall unrhyw barti â diddordeb wneud cais i'r Uchel Lys am orchymyn i ddyfarniad mewn Aelod-wladwriaeth arall gael ei gofrestru, ei gydnabod neu beidio â'i gydnabod.

Gall parti â diddordeb hefyd wneud cais i'r Uchel Lys i orchymyn a wnaed mewn gwladwriaeth arall fod yn orfodadwy gan awdurdodau Cymru.⁴⁶

Cydnabod gorchmynion gwladwriaeth arall

Mae Dmitro yn fachgen 10 oed o'r Wcráin sydd wedi dod i Gymru yn ddiweddar gyda'i fam Elena. Yn sgil pryderon am iechyd meddwl Elena gwnaed ymholiadau o dan adran 47. Gan ddefnyddio'r Confensiwn, mae'r Awdurdod Lleol yn cysylltu â'r awdurdodau yn yr Wcráin ac yn darganfod bod gorchymyn llys ar waith yno sy'n cyfateb i orchymyn gofal. Cafodd y gorchymyn ei roi o ganlyniad i ymddygiad anrhagweladwy Elena a oedd yn cynnwys bygythiadau i niweidio Dmitro. O dan y gorchymyn, cafodd Dmitro ei roi mewn cartref plant ac aeth Elena ag ef oddi yno'n anghyfreithlon.

Mae ymarferydd iechyd meddwl Elena yng Nghymru wedi newid meddyginiaeth Elena ac mae'n llunio asesiad sy'n nodi, ar yr amod ei bod yn parhau i gymryd ei meddyginiaeth, y bydd yn gallu gofalu am Dmitro'n ddiogel.

Er nad yw'r Awdurdod Lleol yn credu bod Elena yn fygythiad i Dmitro bellach ac nad oes unrhyw reswm dros wahanu mam a mab, mae'n rhwym wrth ganfyddiadau ffeithiol llys yr Wcráin a rhaid iddo gydnabod a gorfodi gorchymyn gofal yr Wcráin.

Erthyglau 23 a 25

Beth y dylai Awdurdod Lleol ei wneud os nad yw'r wlad y mae'r plentyn wedi mynd iddi yn gweithredu o dan Gonfensiwn yr Hag 1996?

Dim ond i Gonfensiwn yr Hag 1996 y mae'r gweithdrefnau a'r rhwymedigaethau yn y canllawiau hyn yn gymwys. O dan amgylchiadau lle mae materion amddiffyn plant â gwledydd nad ydynt yn gweithredu o dan y Confensiwn, dylid cael cymorth ynghylch sut i barhau gan sefydliadau fel CFAB a FCO.

Ffynonellau gwybodaeth eraill

Awdurdod Canolog Cymru

Llywodraeth Cymru
Gwasanaethau Cymdeithasol Plant
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: +44 (29) 2082 5512
Ffacs: +44 (29) 2082 3142
E-bost: WalesCAHague1996@wales.gsi.gov.uk

⁴⁶ Rheoliad 8, Rheolau Trefniadaeth Teulu Rhan 12 –check with legal

Gwefan Cynhadledd yr Hag

Mae Gwefan Cynhadledd yr Hag yn rhoi manylion am holl Gonfensiynau'r Hag, gan gynnwys testun llawn pob Confensiwn, crynodebau defnyddiol a thabl statws sy'n nodi'n gwladwriaethau contractio.

Asiantaethau eraill sy'n cynnig cyngor ymarferol

Yr Uned Herwgydio Plant a Chyswllt Rhyngwladol (ICACU)

Central Authority for England and Wales
1980 Hague Convention and Revised Brussels II Regulation
81 Chancery Lane
London
WC2A 1DD
DX 0012 London Chancery Lane
Ffôn: 00 44 (0)20 7911 7045/7047
ICACU@offsol.gsi.gov.uk
Ffacs: 00 44 (0)207 911 7248

Children and Families Across Borders (CFAB)

CFAB yw cangen y DU o'r rhwydwaith Gwasanaethau Cymdeithasol Rhyngwladol (ISS). Mae ISS yn hwyluso'r gwaith o gyfnwrid gwasanaethau gwaith cymdeithasol yn effeithiol rhwng gwledydd. Mae ei brif feysydd gwaith yn cynnwys llinell gyngor am ddim, amddiffyn plant, plant mewn gofal, maethu preifat, masnachu mewn plant, herwgydio plant, anghydfod o ran cyswllt ac achosion caniatâd i symud.

Manylion cyswllt:
CFAB
Canterbury Court, Unit 1.03
1 - 3 Brixton Road
London
SW9 6DE
Llinell Gyngor: 020 7735 8941
E-bost: info@cfab.uk.net
Gwefan: <http://www.cfab.uk.net/>

Africans Unite Against Child Abuse (AFRUCA)

Gyda swyddfeydd yn Llundain a Manceinion, mae AFRUCA yn hyrwyddo lles plant Affricanaidd yn y DU. Mae hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill yn Affrica ac Ewrop

Manylion cyswllt:
AFRUCA
Unit 3D/F Leroy House
436 Essex Road
London
N1 3QP
United Kingdom

Ffôn: 0844 660 8607

Gwefan: <http://www.afruca.org/>

NSPCC Cymru

Mae'r NSPCC yn darparu ystod eang o wasanaethau a help a chyngor i sefydliadau sy'n gweithio i amddiffyn plant rhag niwed.

Manylion cyswllt:

Ffôn: 020 7825 2775

E-bost: info@nspcc.org.uk

Gwefan:

http://www.nspcc.org.uk/help-and-advice/for-organisations-and-professionals/information-services/information-services-hub_wdh76806.html

Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan

Daeth Gweithdrefnau 2008 i rym ledled Cymru ar 1af Ebrill 2008.

Mae Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn rhan hanfodol o'r agenda ehangach ar gyfer diogelu plant a hyrwyddo eu lles. Mae'r safonau cyffredin a ddarperir yn llywio arferion amddiffyn plant ym mhob un o Fyrddau Lleol Diogelu Plant Cymru. Maent yn amlinellu'r fframwaith ar gyfer pennu sut y caiff atgyfeiriadau, camau gweithredu a chynlluniau amddiffyn plant unigol eu gwneud a'u cyflawni. Maent yn seiliedig ar yr egwyddor bod pob unigolyn ac asiantaeth sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd, a chydag oedolion a all beri risg i blant, yn gyfrifol am amddiffyn plant rhag niwed. Nodir bod gweithio mewn partneriaeth a chyfathrebu rhwng asiantaethau yn allweddol er mwyn nodi plant sy'n agored i niwed a'u cadw'n ddiogel rhag niwed a cham-drin

Gwefan: www.awcpp.org.uk

Y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad (FCO)

Mae'r FCO yn gweithio gartref a thramor i sicrhau diogelwch cenedlaethol Prydain a helpu Prydain i ffynnu, yn ogystal â chynorthwyo dinasgyddion Prydeinig dramor. Mae'n gwneud hyn drwy dîm medrus o dros 13,000 o bobl mewn bron i 270 o swyddfeydd diplomyddol.

Manylion cyswllt

Ffôn: 020 7008 1500

Gwefan: www.fco.gov.uk